# Diweddariad Technegol – Marchnadoedd Porthiant

*Gwybodaeth yn gywir am 16:00pm ar 09.04.2020*

- Mae anwadalrwydd ym marchnadoedd porthiant y byd wedi parhau, ond mae'r sefyllfa wedi sefydlogi i ryw raddau ers y cynnydd sylweddol mewn prisiau tua diwedd mis Mawrth.
- Ni cafwyd adroddiadau hyd yn hyn am unrhyw darfu sylweddol ar y gadwyn cyflenwi porthiant yn y tymor byr.
- Cafwyd adferiad o ran arian cyfred i ryw raddau, ac mae hynny wedi bod yn fuddiol o safbwynt nwyddau a gaiff eu mewnforio.
- Bydd angen glaw yn fuan ledled Ewrop ac yn Rwsia i atal gostyngiad yng nghyfanswm y cnydau grawn a gynhyrchir yn 2020
- Mae darpar brisiau haidd y DU yn £120/t o'r fferm ar adeg cynaeafu – disgownt o £35/t o gymharu â gwenith ac mae'n werth ei ystyried
- Mae prisiau isel olew crai yn golygu nad oes galw am fioethanol, felly mae mwy o wenith ac indrawn ar gael, ond ni cheir sgil-gynhyrchion grawn distyllwyr
- Mae rhagolygon cnwd rêp hadau olew 2020 yn y DU a'r UE yn wael, ac mae hynny a'r diffyg galw am fiodiesel wedi arwain at gau nifer o weithfeydd malu yn rhannol neu'n llawn, felly mae llai o flawd rêp yn cael ei gynhyrchu
- Mae cyfleoedd yn dal i fod ar gael i archebu blawd rêp ymlaen llaw am brisiau da yn barod at hydref/gaeaf 2020/21
- Cafwyd gostyngiad o tua £40/t ym mhrisiau blawd soia o borthladdoedd y DU ers y cynnydd sylweddol i tua £345/t ar ddiwedd Mawrth. Gallai prisiau blawd soia ostwng rhagor, a gallai gael ei ystyried unwaith yn rhagor ar gyfer dietau buchod godro wrth i gyflenwadau o borthiannau protein eraill ostwng.

## Cnydau grawn:

- Wedi gaeaf hynod o wlyb ledled y DU ac mewn sawl rhan o Ewrop, ceir pryder y gwnaiff cynhaeaf 2020 leihau ymhellach oni ddaw'r ysbeidiau sychion presennol i ben yn fuan. Rhagwelir y bydd cyfanswm y gwenith a gynhyrchir yn yr UE yn 2020 yn 136MT, 10MT yn llai na chyfanswm yr adeg hon y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae canol Ebrill yn gyfnod allweddol, a pho fwyaf y bydd yr ysbeidiau sychion yn parhau wedi'r adeg honno, gwaethaf yn y byd fydd y canlyniad. Mae rhai ffermwyr cnydau grawn yn Ffrainc bellach yn dyfrhau cnydau.
- Mae Rwsia bellach yn cyfrannu'n sylweddol at y farchnad wenith fyd-eang. Cawsant gyfnod plannu a thyfu da iawn yn ystod y gaeaf, ond bellach, mae arnynt hwythau hefyd angen glaw, neu fe wnaiff cyfanswm eu cnwd gwenith ostwng hefyd. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd pwysau'r cnwd byd-eang yn 78MT fwy neu lai, sy'n is na'r 80MT a ragwelwyd y mis diwethaf, ond ychydig yn uwch na chyfanswm y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae hi'n sych yn yr Wcráin hefyd, ond rhagwelir rhywfaint o law.
- Mae cnwd gwenith gaeaf yr Unol Daleithiau mewn cyflwr da, ond nid yw'r arwynebedd o gnydau gwenith sydd wedi'u plannu wedi bod mor fychan ers 1919.
- Mae cnydau gwenith India ac Awstralia yn edrych yn addawol hefyd.

- Mae oddeutu 40% o'r indrawn a gynhyrchir yn yr Unol Daleithiau yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu biodanwydd erbyn hyn, ond mae'r galw wedi cwympo'n sylweddol, felly bydd mwy o indrawn o'r Unol Daleithiau ar gael. Mae cnydau yn Ne America yn dda iawn ar y cyfan, a chaiff mwy o indrawn ei blannu yn Ewrop y gwanwyn hwn, felly dylai cyflenwadau fod yn rhesymol, a byddai hynny'n helpu i gyfyngu ar unrhyw adferiad yn y prisiau.
- Yn achos rhai ffermwyr yn y DU, yn enwedig yn y de, a fydd heb unrhyw gyflenwadau o gnydau grawn gaeaf neu gyflenwadau gwael ohonynt, gall plannu indrawn i gynhyrchu grawn a gaiff ei grimpio neu i silweirio cobynnau fod yn bosibilrwydd hefyd.

## Proteinau:

- Yn sgil y cwymp sylweddol yng nghyfanswm yr ethanol a gynhyrchir ledled y byd, effeithir ar gyfanswm y grawn distyllwyr gwenith ac indrawn a gynhyrchir hefyd, felly bydd cyflenwadau o'r porthiannau protein canolig hanfodol hyn yn dod yn gyfyngedig neu'n dod i ben maes o law. Ar hyn o bryd, maent oddeutu £40/t yn uwch na'r lefelau cyn yr argyfwng.
- Yn ychwanegol, mae'r galw am fiodiesel wedi gostwng hefyd, felly mae llai o falu rêp hadau olew yn digwydd, a bydd cyfanswm y blawd rêp a gynhyrchir gryn dipyn yn llai o hyn ymlaen. Ar hyn o bryd, mae'r prisiau a restrir am gnwd sydd dros ben hyd at £300/t a mwy na hynny (os yw ar gael), sy'n oddeutu £100/t yn fwy na'r lefelau cyn yr argyfwng. Mae darpar brisiau yn dal i gael eu rhestru ar gyfer yr hydref hwn am gnydau a gludir o borthladd Erith, ac maent yn amrywio o £195/t i £200/t ar gyfer gwanwyn 2021. Gan gymryd y bydd cyflenwadau ar gael, mae hyn yn gyfle pwysig i sicrhau darpar brisiau da nawr.
- Mae cnydau rêp yn y DU ac mewn sawl rhan o Ewrop yn wael, ac mae Ffrainc wedi gostwng eu hamcangyfrifon o'r cnydau sydd wedi'u plannu i 1.1Mha, yr isaf ers 2002, ac mae statws cnwd y DU yn 26% da neu ragorol yn unig.
- Mae cyfuniad o brinder cyflenwadau hadau olew rêp a diffyg galw ynghyd â phrisiau isel yn golygu fod rhai gweithfeydd malu wedi cau, a gallai rhagor ohonynt gau, ac o ganlyniad i hynny, byddai'r cyflenwad o sgil-gynhyrchion ar gyfer y diwydiant porthiant anifeiliaid yn cael ei niweidio.
- Mae'r cynhaeaf soia yn Ne America yn mynd rhagddo'n dda, a rhagwelir pwysau cnwd sydd bron iawn yn uwch nag erioed.
- Mae'n debyg y gwnaiff yr Unol Daleithiau blannu cyfanswm cryn dipyn yn uwch o erwau o gnydau soia y gwanwyn hwn, oherwydd mae prisiau indrawn wedi cwympo.
- Mae'n debyg y bydd y galw gan Tsiena yn gryf yn y tymor canol, felly gallai hynny roi pwysau ar y cyflenwadau byd-eang fydd ar gael ar ddiwedd y flwyddyn.

*Paratowyd gan Kite Consulting*